CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

24 MAWRTH 2021

CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2021 - 2024

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cytuno ar Gynllun Busnes y Bartneriaeth a gaiff wedyn ei anfon i bob un o'r wyth o Awdurdodau Cyfansoddol er mwyn cael eu cymeradwyaeth ysgrifenedig.

RHESYMAU:

Lluniwyd fersiwn drafft o gynllun busnes y Bartneriaeth am 2021 - 2024 sydd angen cymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor Llywodraethu yn unol ag Adran 6 o'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau. Wedi cael cymeradwyaeth y Cydbwyllgor Llywodraethu, anfonir y Cynllun Busnes i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol er eu cymeradwyaeth ysgrifenedig.

Awdur yr Adroddiad: **Chris Moore**	**Swydd:** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**Rhif Ffôn: 01267 224160** **e-bost:** **CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

24 MAWRTH 2021

CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2021 - 2024	
CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD Lluniwyd fersiwn drafft o gynllun busnes y Bartneriaeth yn unol ag Adran 6 o'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau. Pwrpas y cynllun busnes yw: • Esbonio cefndir y Bartneriaeth a'i threfn lywodraethu • Rhoi crynodeb o flaenoriaethau ac amcanion y Bartneriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf. • Cyflwyno polisïau a chynlluniau'r Bartneriaeth • Nodi'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes • Rhoi crynodeb o Fuddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad y Bartneriaeth Caiff y cynllun ei fonitro'n barhaus, ac eir ati bob blwyddyn i'w adolygu a'i gymeradwyo'n ffurfiol.	
ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Lluniwyd cynllun busnes a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma:

Lluniwyd y fersiwn drafft o'r Cynllun Busnes ar y cyd â swyddogion y Gweithgor Swyddogion a Hymans Robertson, Ymgynghorwyr Trosolwg y Bartneriaeth.

Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth
Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN